# Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod ei bolisïau, strategaethau, gwasanaethau a swyddogaethau yn dangos ystyriaeth o'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon,
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt, a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â nodwedd warchodedig a'r rheini sydd heb.

Mae Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb (AEGau) yn ein helpu i nodi effaith ein penderfyniadau ar wahanol grwpiau o bobl, yn enwedig y rheini sydd â nodwedd warchodedig. Bydd hefyd yn helpu i nodi a effeithir ar unrhyw grŵp penodol yn fwy neu mewn ffordd wahanol i grwpiau eraill.

Gellir nodi effaith gadarnhaol pan fydd y cynnig yn fuddiol neu'n cyflawni gwelliannau ar gyfer rhai neu bob un o'r nodweddion gwarchodedig.

Nodir effaith negyddol pan fydd y cynnig yn debygol o fod yn niweidiol i un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig.

Gellir nodi dim effaith pan na fydd y cynnig yn effeithio ar un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig.

**Lle nodir effaith negyddol, rhaid cynnwys ystyriaeth o sut i liniaru'r effaith yn yr AEG.**

Y nodweddion gwarchodedig yw:

- Oedran
- Anabledd
- Ailbennu Rhywedd
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu Gred (gan gynnwys diffyg crefydd neu gred)
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

## Asesu'r Effaith ar Grwpiau sy'n rhannu Nodwedd Warchodedig

| Nodwedd Warchodedig | Ticiwch o leiaf un effaith ar gyfer pob grŵp | | | Darparwch fanylion am y dystiolaeth a'r ffynhonnell ddata a ddefnyddiwyd i nodi'r effaith neu'r diffyg effaith. | Ar gyfer effeithiau cadarnhaol neu negyddol, rhowch fanylion am yr effaith debygol. | Ar gyfer effeithiau negyddol, rhaid i chi ystyried sut i leihau neu gael gwared ar yr effaith. Os na allwch ei leihau neu ei ddileu, rhaid i chi esbonio pam y dylai'r cynnig fynd yn ei flaen. Nodwch y manylion isod. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cadarnhaol Effaith | Negyddol Effaith | Dim Effaith | | | |
| **OEDRAN** | X | X | | Rhaid i bob cyngor yng Nghymru gynnig digon o leoedd ysgol i ddisgyblion o bob oed.<br><br>Nod strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gyda 40% o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg a 70% o bobl ifanc 15 oed yn gallu siarad Cymraeg. Rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried y fframwaith deddfwriaethol a pholisi a nodir ar dudalen 3 o'r Asesiad Effaith Sengl.<br><br>Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2031, a gymeradwywyd | Gallai fod yna effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gyda chynnydd yn nifer y lleoedd uwchradd Cymraeg i wasanaethu Caerdydd yn amodol ar gyllid yn cael ei glustnodi a chwblhau prosesau statudol ffurfiol gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus llawn.<br><br>Byddai unrhyw newidiadau mewn darpariaeth yn | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ym mis Gorffennaf 2022, yn amlinellu ymrwymiad uchelgeisiol y Cyngor i ehangu darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys darpariaeth sy'n gwasanaethu datblygiadau tai CDLl newydd lle mae o leiaf 50% wedi'u clustnodi ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br>Ers 2001, mae cyfran y siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn yng Nghaerdydd wedi cynyddu bron i draean, gyda 17.5% o'r boblogaeth bellach yn meddu ar sgiliau Cymraeg—y trydydd uchaf yng Nghymru.<br><br>Nod Caerdydd, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, yw i 25 i 29% o ddisgyblion Blwyddyn 1 gael eu haddysgu yn Gymraeg erbyn 2031, i fyny o 17.6% yn 2023/24. Mae hyn yn gofyn am | gofyn am newidiadau yn strwythur staffio ysgolion.<br><br>Byddai newidiadau yn gofyn i Gyrff Llywodraethu'r ysgolion yr effeithir arnynt ystyried gofynion y gweithlu.<br>Byddai’r Cyrff Llywodraethu’n cael eu hannog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â Fframwaith Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion AD.<br>Byddai Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Cyrff Llywodraethu am y broses o gynllunio'r gweithlu a | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gynnydd o 7.4–11.4 pwynt canran. Yn 2020/21, roedd 18% o ddisgyblion derbyn mewn addysg cyfrwng Cymraeg, ac erbyn 2024/25 roedd y ffigur hwn yn parhau i fod yn debyg ar 18%. Gallai cyfraddau geni sy'n gostwng a lleoedd dros ben sy'n codi alluogi cyfran uwch o ddisgyblion i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae arwyddion cynnar o gynnydd yn amlwg: erbyn Ionawr 2025, roedd 20.1% o blant oedran meithrin mewn lleoliadau a gynhelir mewn addysg cyfrwng Cymraeg, er bod y dosbarthiad yn amrywio ar draws y ddinas. | phrosesau recriwtio o ganlyniad i hynny. | |
| **ANABLEDD** | | | X | Gall ymgeiswyr ddatgan dewis a chael mynediad at ysgol yn y cyfrwng iaith o'u dewis. | | |
| **AILBENNU RHYWEDD** | | | X | Gall ymgeiswyr ddatgan dewis a chael mynediad at ysgol yn y cyfrwng iaith o'u dewis. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **HIL** | | | X | Gall ymgeiswyr ddatgan dewis a chael mynediad at ysgol yn y cyfrwng iaith o'u dewis.<br><br>Ym mis Ionawr 2025, roedd 12.9% o ddysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg statudol yng Nghaerdydd wedi'u cofnodi fel Prydeinig Heb Fod yn Wyn (CYBLD 2025).<br><br>Mae hyn yn cymharu â 41.2% o ddysgwyr oedran statudol mewn addysg cyfrwng Saesneg statudol yng Nghaerdydd (CYBLD 2025).<br><br>Mae'r Cyngor wedi adolygu data dewisiadau derbyn i ysgolion a data canlyniadau Diwrnod Cynnig ar gyfer derbyn i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg o Flynyddoedd Derbyn 2024 a 2025. Mae'r data hwn yn cadarnhau nad oedd rhieni nad oedd wedi gallu sicrhau lle i'w | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | plentyn yn yr ysgol o’u dewis yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn destun gwahaniaethu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ar ben hynny, cynigiwyd lle i bob plentyn oedd yn gwneud cais i gael eu derbyn i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg. Nid oes unrhyw dystiolaeth o duedd neu ragfarn yn erbyn unrhyw grŵp sydd â nodweddion gwarchodedig yn y trefniadau presennol nac yn yr opsiynau a gyflwynwyd ar gyfer yr ymarferion ymgysylltu.<br><br>Bydd pecyn data yn deillio o CYBLD yn cynnwys data sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn cael ei ddarparu fel rhan o'r ymarferion ymgysylltu. | | |
| **CREFYDD, CRED a DIFFYG CRED** | | | X | .<br>Gall ymgeiswyr ddatgan dewis a chael mynediad | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | at ysgol yn y cyfrwng iaith o'u dewis.<br><br>Bydd pecyn data yn deillio o CYBLD yn cynnwys data sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig yn cael ei ddarparu fel rhan o'r ymarferion ymgysylltu. | | |
| **RHYW** | | | X | Gall ymgeiswyr ddatgan dewis a chael mynediad at ysgol yn y cyfrwng iaith o'u dewis.<br><br>Mae data CYBLD yn dangos, ym mis Ionawr 2025, bod 50.8% o ddysgwyr oed statudol sy'n mynychu ysgol brif ffrwd yng Nghaerdydd yn fenywaidd a 49.2% yn wrywaidd.<br><br>Cofnodwyd bod 48.8% o ddysgwyr oed statudol sy'n mynychu ysgol cyfrwng Saesneg yng Nghaerdydd yn fenywaidd a 51.2% yn wrywaidd. | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **CYFEIRIADEDD RHYWIOL** | | | X | Gall ymgeiswyr ddatgan dewis a chael mynediad at ysgol yn y cyfrwng iaith o'u dewis. | | |
| **PRIODAS A PHARTNERIAETH SIFIL** | | | X | Gall ymgeiswyr ddatgan dewis a chael mynediad at ysgol yn y cyfrwng iaith o'u dewis. | | |
| **BEICHIOGRWYDD a MAMOLAETH** | | | X | . Gall ymgeiswyr ddatgan dewis a chael mynediad at ysgol yn y cyfrwng iaith o'u dewis. | | |

**Cyfranogiad**

Wrth gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb, mae'r ddeddfwriaeth yn dweud:

***Rhaid** i ni gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ein swyddogaethau.*

*Efallai y byddwn hefyd yn cynnwys neu'n ymgynghori â phobl eraill fel y tybiwn yn briodol, ond wrth ystyried hyn, mae'n **rhaid** i ni roi sylw i'r angen i gynnwys pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig, ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ein swyddogaethau.*

Yn gryno felly, os yw'r AEG wedi nodi grwpiau o bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol, rhaid i chi wneud trefniadau i'w cynnwys nhw, y bobl sy'n eu cynrychioli neu'r rhai sy'n eirioli ar eu rhan.

Am gyngor ac arweiniad ar y ffordd orau o ymgysylltu â gwahanol grwpiau o bobl, ac i helpu i nodi'r dull(iau) mwyaf effeithiol, cysylltwch â Chanolfan Ymgysylltu ac Ymchwil Caerdydd ymgynghoriad@caerdydd.gov.uk. Mae rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael hefyd yn y Canllawiau AEG.

| **Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i gynnwys pobl?**<br>*Nodwch y manylion isod fel y bobl neu grwpiau yr ymgysylltwyd â hwy; y dulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd e.e. arolygon, grwpiau ffocws, gweithdai, cyfweliadau, ymgynghori ffurfiol ac ati. Os ydych yn cynnwys cynrychiolwyr neu eiriolwyr y bobl sy'n debygol o gael eu heffeithio'n sylweddol ac nid y bobl eu hunain, esboniwch pam isod.* |
|---|
| Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, cynhelir ymgysylltu â rhanddeiliaid a fydd yn cynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg ac eraill fel sy'n berthnasol ar y canlynol:<br><br>a. cynllunio mesurau dros dro i ddarparu ar gyfer pob dysgwr sy'n dymuno mynd i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg yn 2027/28.<br>b. adolygu dalgylchoedd ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg.<br>c. cynllunio newidiadau strategol hirdymor i ddarpariaeth ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.<br><br>Bydd dogfennau ymgysylltu wedi'u hysgrifennu gan ddefnyddio iaith hygyrch ar gael ynghyd â'r cynnig i bartïon â diddordeb fynychu cyfarfod(ydd) cyhoeddus a / neu sesiynau galw heibio.<br><br>Mae strategaeth gyfranogiad Caerdydd wedi nodi o'r blaen fod rhai grwpiau yn cael eu tangynrychioli e.e. pobl anabl, rhai o gefndiroedd ethnig amrywiol. Bydd yr ymarferion ymgysylltu yn gynhwysol o bob grŵp ac yn defnyddio dulliau ymgysylltu hygyrch.<br><br>Lle bo hynny'n briodol, mae ysgolion yn gweithio gyda swyddogion i gefnogi ymgysylltu grwpiau sy’n cael eu cynrychioli llai i sicrhau bod ystod eang o safbwyntiau’n cael eu cyfleu fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys ymgynghori â Phlant a Phobl Ifanc. |

| |
|---|
| Byddai asesiadau effaith pellach, gan gynnwys hawliau cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau Plant wedi'u diweddaru, yn cael eu cynnal wrth i'r broses ddatblygu i lywio cynllunio strategol yn y dyfodol. |

**Yn dilyn yr ymgysylltu, cofiwch ddiweddaru'r asesiad effaith gyda'r canfyddiadau ac unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad.**

**Monitro Camau Gweithredu Lliniarol**

| **Ar gyfer effeithiau negyddol, rhestrwch unrhyw gamau lliniaru isod. Sut caiff y cynnydd ei fonitro?** *Rhowch fanylion y camau gweithredu lliniarol hyn; sut y caiff y camau gweithredu eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau, er enghraifft drwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth; pryd y disgwylir i'r camau gweithredu lliniarol gael eu cyflawni; a phwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r camau gweithredu.* | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Lliniarol** | **Trefniadau Monitro** | **Dyddiad Cyflwyno Disgwyliedig** | **Swyddog Cyfrifol** |
| Byddai ymarferion ymgysylltu yn gynhwysol o bob grŵp ac yn defnyddio dulliau ymgysylltu hygyrch. | Ymarferion ymgysylltu 12 Chwefror - 26 Mawrth 2026 | Ymarferion ymgysylltu i'w cwblhau erbyn 26 Mawrth 2026 | MDF |
| Byddai asesiadau effaith pellach, gan gynnwys cydraddoldeb, y Gymraeg a hawliau Plant wedi'u diweddaru, yn cael eu cynnal wrth i'r broses ddatblygu i lywio cynllunio strategol yn y dyfodol. | I'w benderfynu, os datblygir cynigion manwl pellach. | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |